

Pecyn cymorth technoleg dwyieithog: profiad da i'r defnyddiwr

Mehefin 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn cymorth i sicrhau bod technoleg gwybodaeth yn cynnig profiad Cymraeg da i'r defnyddiwr. Pwrpas y pecyn yw esbonio sut mae rhoi'r defnyddiwr yn ganolog i'r broses dylunio wrth sicrhau egwyddorion dylunio dwyieithog o safon. Dymuniad y Llywodraeth yw gyrru'r farchnad am feddalwedd dwyieithog, gyda'r gobaith bod mwy o gwmnïau'n cynnig gwasanaethau o'r fath. Gellir ei ddefnyddio wrth lunio prosiect yn fewnol neu wrth gaffael gwasanaeth TG yn allanol. Maen nhw'n defnyddio'r pecyn mewn tendrau ac wrth asesu ceisiadau am dechnoleg newydd. Mae'r pecyn hefyd yn cyfeirio darllenwyr at wybodaeth fanylach pe bai angen, gan gynnwys dogfen gyngor gynhwysfawr Comisiynydd y Gymraeg am y maes: [Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg](#).

Mae'r pecyn wedi'i ysgrifennu mewn ffordd syml, sy'n galluogi i ddefnyddwyr nad ydynt yn arbenigwyr technoleg i'w ddefnyddio. Mae'n cychwyn gyda rhestr termau ac yna caiff y defnyddiwr eu tywys drwy dabl ar ffurf rhestr wirio sy'n ei alluogi i flaenoriaethu'r gwahanol ofynion mewn prosiect technoleg dwyieithog. Mae colofn i'w chwblhau i nodi sut y bydd y gofynion manwl hyn yn cael eu cyflawni a sicrhau bod gofynion iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y fanyleb neu gynllun prosiect.

Mae modd i chi weld y pecyn cymorth yma: [Pecyn cymorth technoleg dwyieithog: profiad da i'r defnyddiwr](#)

Cefndir

Sbardunwyd y Llywodraeth i lunio'r pecyn oherwydd:

- Bod prosesau caffael meddalwedd dwyieithog wedi codi fel her a chyfle wrth i'r Llywodraeth lunio'r [Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg](#).
- Roedd yn derbyn nifer fawr o ymholiadau gan gydweithwyr, sefydliadau allanol a chwmnïau technoleg ynghylch y ffordd orau o gynnig gwasanaethau digidol Cymraeg o safon.

Weithiau, doedd datblygwyr technoleg ddim yn gwbl eglur sut yn union y dylid datblygu profiad dwyieithog/Cymraeg da i ddefnyddwyr, gan nad oedd egwyddorion gwneud hynny gyda'r 'defnyddiwr yn ganolog' ar gael ar ffurf gryno a hawdd eu cynnwys mewn dogfennau tendr. Felly, roedd risg nad oedd manylebau'n ddigon manwl i'r darpar gyflenwyr wybod beth yn union oedd angen ei wneud er mwyn cynnig profiad Cymraeg

o safon. Yng nghyd-destun gwasanaethau Cymraeg gall rhwystrau olygu gwasanaeth anodd ei ganfod, testun Cymraeg heb fod mor gyfoes na dealladwy â'r testun cyfatebol Saesneg, ac ati. Dyma rai ffactorau sy'n ei gwneud hi'n llai tebygol bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio fersiwn Cymraeg gwasanaeth digidol.

Y gwaith a wnaethpwyd

Arweiniodd y Llywodraeth ar brosiect i greu'r pecyn cymorth, a gwahodd mewnbwn gan gwmni allanol, swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ac eraill. Seiliwyd y pecyn yn rhannol ar ddogfen gyngor fanwl y Comisiynydd, [Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg](#). Cyfeiriwyd hefyd at ganllawiau lleoleiddio meddalwedd a theminoleg i ddatblygwyr eu defnyddio er mwyn creu gwasanaeth dwyieithog o safon.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i dderbyn adborth ar y pecyn gan ddefnyddwyr er mwyn ei wella at y dyfodol.

Canlyniadau hyd yma

Mae'r pecyn cymorth bellach ar gael yn gyhoeddus ac ar gael ar y dudalen [hon](#) dan y pennawd Profiad da i'r Defnyddiwr. Mae'n helpu i sicrhau bod prosiectau TG yn cynnig gwasanaeth da yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae'n hwyluso darparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddatblygwyr gyda'r bwriad y bydd hyn, yn ei dro, yn gwella ansawdd y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, a chynyddu'r defnydd ohonynt.

Mae'r pecyn cymorth yn troi egwyddorion dogfen gyngor y Comisiynydd yn rhestr wirio hwylus gan ei gwneud yn haws i ddatblygwyr gynnig gwasanaethau Cymraeg, ac yn haws i sefydliadau sy'n estyn gwahoddiadau i dendro wybod eu bod yn gofyn am gynnyrch o ansawdd a fydd yn hybu defnydd o'r Gymraeg.

Mae adborth ansoddol ac anffurfiol a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr y pecyn yn nodi ei fod wedi arbed amser a symleiddio'r broses tendro am wasanaethau a chynnyrch Cymraeg.

Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r pecyn dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 er mwyn annog eraill i'w ddefnyddio, addasu a'i rannu heb geisio caniatâd.

Manylion cyswllt

Sefydliad:	Llywodraeth Cymru
E-bost:	Safonau.Standards@llyw.cymru
Swyddog cyswllt:	Bethan Griffiths & Dylan Williams

Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae darpariaeth amlieithog mewn technoleg yn gyfleuster cyffredin yn rhyngwladol eisoes ac mae technoleg yn rhan annatod o'n bywydau o ddydd i ddydd. Ac eto, mae sefydliadau Cymreig a Phrydeinig yn dweud wrthym fod rhwystrau technolegol rhag cynnwys y Gymraeg ar lwyfannau TG fel eu gwefannau.

Gwyddom eisoes bod sicrhau ystyriaeth lawn o'r Gymraeg o gychwyn prosiect yn broses llawer yn haws nag ei hychwanegu ar y diwedd. Dyna'r egwyddor sy'n sail i ddogfen gyngor gynhwysfawr y Comisiynydd yn y maes. Mae'r pecyn cymorth hwn yn gwneud cymwynas bellach â'r maes drwy amlygu'r egwyddor honno mewn strwythur sy'n addas i gomisiynwyr a darparwyr, gan ddarparu fframwaith ymarferol a chryno ynghyd â rhestr wirio i ystyried ansawdd y gwasanaeth Cymraeg.

Mae gan bob sefydliad ddylanwad ar gyfraddau defnydd o wasanaethau Cymraeg. Dylai cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg ystyried a fyddai'n gymorth iddynt ddefnyddio'r pecyn yng nghyd-destun eu dyletswyddau dan y safonau neu ymrwymadau llunio polisi wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau TG ynghyd â gofynion eu safonau am wefannau, gwasanaethau ar-lein, ffurflenni ac apiau.